

**LLWYBRAU DYSGU 14-19**

**LLAWLYFR DULLIAU ac ADNODDAU**

**AR GYFER GWEITHWYR**

**GWAITH IEUENCTID**

**YNG NGHYMRU**

**Awst 2012**

## **Trosolwg**

Mae'r Llawlyfr hwn yn cyflwyno, yn egluro ac yn ehangu ar wybodaeth gyfredol am fframwaith Llwybrau Dysgu 14-19 a rolau posibl gwaith ieuenctid o fewn y fframwaith.

Mae'n bosibl na fydd yr holl wybodaeth yn y Llawlyfr hwn yn uniongyrchol berthnasol i bob Gweithiwr Gwaith Ieuenctid. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan yr holl Weithwyr Gwaith Ieuenctid yn gwybod bod eu gwaith yn rhan o ddarlun ehangach addysgol ac y gall fod cyfleoedd i chwarae rôl hyd yn oed mwy arwyddocaol, gan gyfrannu at ddatblygiad cadarnhaol y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae'r Llawlyfr yn ceisio annog trafodaeth ymhlith Gweithwyr Gwaith Ieuenctid am y potensial i wneud ymyriadau sy'n gysylltiedig â Llwybrau Dysgu 14-19, datblygu 'cynnig' Gwaith Ieuenctid i bobl ifanc ac annog partneriaid addysgol eraill i gydnabod a gwerthfawrogi Gwaith Ieuenctid.

Mae'r Llawlyfr yn cyflwyno diffiniadau a chefnidir i Lwybrau Dysgu, yn cyfeirio at gyfleoedd achredu, dulliau cyflwyno, cymariaethau rôl a gwybodaeth gyswllt sylfaenol. Mae'n cyfeirio at Arferion Gwaith Ieuenctid sydd eisoes wedi cyfrannu at Lwybrau Dysgu pobl ifanc.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o lyfrgell Dulliau Arfer Da a Llawlyfrau Adnoddau ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Fe'ch anogir i ddarllen y llawlyfrau eraill am lu o adnoddau ymarferol sy'n gwella arferion gwaith ieuenctid i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc yng Nghymru.

## **Diolchiadau**

### **Awduron a'r Tîm Golygyddol**

**Paul O'Neill**      Gwasanaethau Ieuenctid Caerffili

**Jen Tredinnick**      Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam

**John Heffernan**      Prosiect Ieuenctid Tanyard, Penfro

**Hayley Wood**      Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

## **Cynnwys**

Cyflwyniad	5
Perthnasedd i Waith Ieuenctid	6
Llwybr Dysgu 14-19 Unigol	8
Datblygiad Personol a Chymdeithasol a ddarperir gan Weithwyr Ieuenctid	11
Rôl Gwaith Ieuenctid	14
Dogfennau Allweddol i Gefnogi Llwybrau Dysgu 14-19 a Gwaith Ieuenctid	22
Gweithgareddau Ymarferol i Gefnogi Llwybrau Dysgu Unigol	27
Enghreifftiau o ymyriadau Gwaith Ieuenctid yn Llwybrau Dysgu 14-19	43
Cysylltiadau	47

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu'n bennaf at Weithwyr Gwaith Ieuenctid. Yn eu rôl fel gweithwyr addysg proffesiynol efallai y byddant yn cyflawni rôl yr Anogwr Dysgu, gan helpu pobl ifanc gyda sgiliau sylfaenol neu yn ymgymryd â gwaith cymorth megis cyngor, gwybodaeth neu gynghori. Nawr, fel rhan o dirwedd Addysg yng Nghymru, mae Llwybrau Dysgu 14-19 (y cyfeirir atynt yn aml fel naill ai '14-19' neu 'Llwybrau Dysgu') yn arwyddocaol i bob addysgwyr sy'n ymgysylltu gyda'r ystod oedran hwn.

Y cyfraniad mwyaf blaenllaw mae gwaith ieuenctid yn ei wneud at Llwybrau Dysgu yw gallu Gweithiwr Ieuenctid i greu perthnasau anffurfiol, ystyrlon yn enwedig gyda'r nifer o bobl ifanc na fyddent fel arall yn ymgysylltu'n dda gyda chyfleoedd addysgol mwy prif ffrwd. Mae'r un gallu hwnnw i feithrin perthynas addysgol ehangach hefyd yn golygu y gall y bobl ifanc sy'n perfformio'n dda mewn cyd-destun ffurfiol cael profiad addysgol mwy cyfannol drwy cael eu cyflwyno i gyfleoedd datblygiad cymdeithasol a phersonol na fydden nhw fel arall yn cael mynediad atynt trwy sianeli mwy traddodiadol.

Gall gweithwyr ieuenctid i bwy mae'r Llawlyfr hwn yn berthnasol fod yn rhan o sefyllfa yn gysylltiedig yn benodol â 14-19 megis cyflwyno addysg i bobl ifanc a ddisgrifir fel NEET (Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Fel arall, gallant fod yn rhan o gyflwyno gwaith ieuenctid mwy cyffredinol lle mae pobl ifanc wedi ceisio cyfleoedd i gael help gyda'u gwaith cartref neu ychwanegu at eu sgiliau sylfaenol. Yn y naill achos neu'r llall, gall y bobl ifanc fod yn derbyn cyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â Llwybrau Dysgu eisoes. Bydd y gweithiwr Gwaith Ieuenctid mewn sefyllfa dda i atgyfnerthu'r naill sefyllfa a'r llall. Efallai y bydd adegau pan fydd angen i Weithwyr Ieuenctid fod yn eiriol ar ran pobl ifanc nad ydynt yn derbyn arweiniad a chefnogaeth gan nad ydynt yn gwybod am eu hawl iddynt neu efallai y byddant yn gallu cynorthwyo'r rhai sydd yn derbyn arweiniad cyfyngedig yn unig.

Er y gall fod adegau pan fydd y rôl yn un o eiriolaeth a all greu elfen o wrthdaro gyda gweithwyr proffesiynol eraill, mae gweithwyr ieuenctid yn bartneriaid llawn yn y broses ddysgu. Eu rôl yw, fel ym mhob agwedd o waith ieuenctid, i gymryd rhan mewn perthynas gwirfoddol gyda'r person ifanc a gallai fod angen egluro hyn i bartneriaid eraill. Mae yr un mor bwysig bod y gweithiwr ieuenctid yn deall rolau'r gweithwyr proffesiynol eraill hyn a bydd cydnabod yr arbenigedd proffesiynol gwahanol sydd gan bob un yn gynnar yn ychwanegu at y buddion i bobl ifanc o weithio mewn partneriaeth.

## 2. Perthnasedd i Waith Ieuenctid

Mae ymgyfarwyddo â Llwybrau Dysgu fel strwythur addysgol yng Nghymru yn bwysig am nifer o wahanol resymau -

- Mae'r ystod oedran 14-19 yn ffitio o fewn cwmpas arferol darpariaeth gwaith ieuenctid 11-25
- Mae gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno pob math o gyfleoedd dysgu fel y bo'n briodol i'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Gall y cyfleoedd hyn arwain at ddysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol sy'n cael eu trafod yn llawn yn y Llawlyfr Achredu.
- Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn cwmpasu'r sbectwm cyfan o dulliau addysgol anffurfiol/heb fod yn ffurfiol/ffurfiol. Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithredu ym mhob un o'r dulliau hyn drwy ddarparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion a thrwy darparu gwaith ieuenctid mynediad agored o gyfleoedd achrededig sydd ddim fel arfer ar gael mewn ysgolion a cholegau AB. Mae'r rhain yn cynnwys Agored Cymru (Rhwydwaith Coleg Agored), ASDAN a Gwobr Dug Caeredin a gellir gweld rhestr lawn a manwl yn y Llawlyfr Achredu. Maent weithiau yn cael eu cyfeirio at fel Addysg Amgen er mae gweithwyr ieuenctid yn aml yn cyfeirio atynt yn fwy perthnasol fel dysgu 'priodol'. Maent yn cael eu cyflwyno, yn effeithiol, mewn lleoliadau addysgol anffurfiol yn ogystal â rhai ffurfiol lle cefnogir cyrhaeddiad addysgol gydag amrywiaeth o ymarferwyr addysg sy'n ychwanegol i'r rhai sydd yn athrawon prif ffrwd.
- Mae Gweithwyr Ieuenctid mewn sefyllfa unigryw i gynnig elfennau penodol o fewn strategaeth cyffredinol Llwybrau Dysgu 14-19, megis y rhai sy'n ymwneud â datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc.
- Mae dogfennaeth Llwybrau Dysgu'n cydnabod y gwerth o gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol nad sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr dysgu ffurfiol fel ysgolion a cholegau. Mae'n nodi bod hyn yn cael ei gyflenwi orau yn aml gan y rhai sy'n gallu meithrin perthynas gref gyda'r bobl ifanc hynny lle nad yw dysgu yn rhywbeth y maent yn dewis ei wneud yn hawdd. Mae'n gwerthfawrogi'r berthynas wirfoddol rhwng y dysgwr a hwyluswr y dysgu hwnnw.

Mae'n bwysig nodi er bod y cyflwyniad o Lwybrau Dysgu 14-19 wedi bod yn ddetholus mewn rhai achosion (h.y. mae'n cael ei anelu at y rhai a welir fel rhai a allai tangyflawni o safbwynt addysg ffurfiol), mae mynediad at lwybr dysgu unigol yn hawl gyffredinol i bob person ifanc yng Nghymru. Mae mynediad at gymorth ar gyfer y dysgu hwnnw hefyd yn hawl

cyffredinol. Mae dogfennaeth Llwybrau Dysgu hefyd yn cydnabod bod nifer o bobl ifanc ag yn cael anawsterau gyda dysgu am resymau sydd â dim byd i'w gwneud â'r dysgu ei hun ond sy'n ymwneud â ffordd o fyw, perthynas â rhieni, yr angen i ofalu am aelodau eraill o'r teulu neu am eu bod nhw mewn sefyllfa gofal eu hunain. Mae eu cefnogi i oresgyn y rhain yn rhan annatod o rôl y gweithiwr ieuenctid.

### 3.Llwybr Dysgu 14 - 19 Unigol

Menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Llwybrau Dysgu 14-19 gyda'r bwriad o gynyddu nifer y bobl ifanc 16 - 19 oed sy'n mynd ymlaen i Addysg Bellach ac Uwch, er mwyn sicrhau gweithlu tra medrus ac effeithiol ac i ostwng y nifer sy'n diflannu o ddysgu a chyflogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw o'u bywyd.

Mae Llwybr Dysgu Unigol yn rhoi'r cyfle i berson ifanc ddilyn rhaglen fwy hyblyg ac yn seiliedig ar anghenion dysgu gyda'r bwriad o'u cefnogi i gynyddu cyrhaeddiad addysgol a'u cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Dylai Llwybr Dysgu canolbwyntio ar anghenion unigol y dysgwr ac ystyried pob agwedd ar eu dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol a datblygiad y sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial [\[1\]](#) .

Mae'r fenter yn cynnwys chwe elfen allweddol sy'n rhan annatod o ddysgu a chyrhaeddiad person ifanc. Yn gryno, mae elfennau 1, 2, a 3 yn ystyried y ddarpariaeth addysgol y mae gan pobl ifanc, fel dysgwyr, yr hawl i'w derbyn. Mae elfennau 4, 5 a 6 yn cydnabod y gefnogaeth, cyngor ac arweiniad a allai fod yn angenrheidiol i bobl ifanc gyflawni eu llwybr dysgu unigol ac i gael y mwyaf allan ohono.

Dyma dair elfen y Ddarpariaeth Dysgu:

1. Mae angen i Lwybr Dysgu Unigol wedi'i deilwra i anghenion unigol y person ifanc redeg o oedran 14-19 a thu hwnt sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy ac at ddyfarniadau credyd ar lefelau dysgu priodol ac ar yr adeg gywir ar gyfer y dysgwr.
2. Dewis Ehangach a Hyblygrwydd er mwyn i'r person ifanc allu dewis o ystod o feysydd gyda chyfleoedd i amrywio cyflymder a chyfeiriad y llwybr.
3. Craidd Dysgu sy'n cynnwys sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthoedd a phrofiadau mae pob person ifanc 14-19 oed eu angen beth bynnag eu llwybr dewisol.


Dyma dair elfen Cymorth i Ddysgwyr:

4. Anogwr Dysgu a fydd yn cefnogi'r dysgu ac yn helpu i osod llwybr a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i drafod dysgu, cynnydd a newid cyfeiriad, os oes angen, yn rheolaidd.



5. Cymorth Personol, naill ai drwy gyfeirio neu hunangyfeirio a fydd yn cael mynediad at ystod o gefnogaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r materion niferus a allai fod yn rhwystr i ddysgu.
6. Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeoddd sydd yn ddiuedd ac yn hysbysu'r llwybr dysgu trwy ei lywio tuag at ganlyniadau gyrfa.

This map shows the structure of an individual learning pathway as created by Jen Tredinnick for Wrexham Youth Service



## 4. Datblygiad Personol a Chymdeithasol a ddarperir gan Weithwyr Ieuenctid

Mae gan Weithiwr Ieuenctid gyfle unigryw i ddarparu cymorth, cyngor a mentora i bobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd, cyd-destunau a lefelau. Er bod gweithwyr Ieuenctid yn cynnig **cymorth personol** i bobl ifanc i gael mynediad at eu llwybr dysgu unigol a goresgyn rhwystrau sy'n atal hyn, maent hefyd yn darparu cyfleoedd addysg ffurfiol ac anffurfiol. Maent hefyd yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau hanfodol sydd yn elfennau allweddol o'r Llwybr Dysgu Unigol. Mae Gweithwyr Ieuenctid hefyd mewn sefyllfa dda i hwyluso mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli ehangach ar gyfer y rhai sydd yn llai brwdfrydig am y dysgu ei hun a gallai hyn roi profiad mwy real ac ystyrlon i'r bobl ifanc.

Gall Gweithwyr Ieuenctid ddarparu'r cymorth hwn mewn ysgolion, mewn cymunedau, ac mewn partneriaeth â theuluoedd a sefydliadau a phartneriaid eraill. Yn dibynnu ar anghenion unigol a pharodrwydd person ifanc i gymryd rhan yn wirfoddol, gellir darparu'r cymorth, y cyngor a'r mentora fel rhan o glwb, prosiect neu gwricwlwm clwb, mewn grwpiau bach neu ar sail unigol (un i un).

Ymhlith rhai o'r cyd-destunau ar gyfer y gwaith yma gyda Llwybrau Dysgu 14-19 mae:

### a) Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion

Mae nifer o enghreifftiau o waith Ieuenctid mewn lleoliadau ysgol. Mae rhai o'r rhain yn canolbwyntio ar waith Ieuenctid yn unig tra bod eraill yn canolbwyntio ar gefnogaeth addysgol a bod eraill yn fwy therapiwtig o ran eu natur.

Beth bynnag fo'r math, mae prosiectau gwaith Ieuenctid mewn ysgolion yn cymryd rhan mewn rhaglenni Llwybrau Dysgu 14-19 yn y ffyrdd canlynol, er nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o bell ffordd -

- Darparu cymorth personol
- Hwyluso mynediad i raglenni achredu anffurfiol
- Hwyluso mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli ehangach yn y gymuned

### b) Prosiectau heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Mae rhai pobl ifanc yn disgyn drwy'r 'rhwyd' addysgol a gall hyn fod yn sgil amryw o ffactorau, gan gynnwys ymddygiad, amgylchiadau cymdeithasol, amgylchiadau teuluol/byw, materion yn ymwneud â gofal, ac anaddasrwydd ysgolion i ddarparu ar gyfer yr unigolyn. Efallai y bydd rhai o'r bobl ifanc hyn eisoes wedi cael profiad o beth mae addysgwyr ffurfiol yn galw'n 'addysg amgen' neu yn nhermau gwaith ieuenctid 'addysg briodol' megis Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs), rhaglenni Mynediad Ieuenctid ac eraill.

Mae nifer o Wasanaethau Ieuenctid yn gweithredu prosiectau sy'n canolbwyntio ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) sy'n defnyddio methodoleg gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc sy'n cael anhawster yn ymgysylltu â dysgu ac ysgolion. Gall hyn gynnwys defnyddio dull datgysylltiedig neu allgymorth (gweler y Llawlyfr ar Waith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth) o waith ieuenctid. Mae'r prosiectau hyn yn galluogi pobl ifanc i gael mynediad at y mathau o gyfleoedd dysgu cymunedol ac anffurfiol sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at lwybrau dysgu mwy amrywiol a phersonol.

### **c) Cadw mewn Cysylltiad**

Mae prosiectau Cadw mewn Cysylltiad yn debyg i'r rhai yn b) uchod er maen nhw'n canolbwyntio mwy ar geisio helpu pobl ifanc i osgoi sefyllfa o fod yn NEET. Efallai y byddant hefyd yn defnyddio dull allgymorth sy'n cadw'r ymgysylltu â phobl ifanc ac yn eu cael i fannau o ddysgu neu hyfforddiant neu i gymryd rhan mewn prentisiaethau.

### **ch) Bagloriaeth Cymru**

Gall dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, sgiliau yn seiliedig ar ddysgu a gwirfoddoli gyfrannu'n uniongyrchol at Fagloriaeth Cymru ar lefel cyn 16 ac ôl 16. Gall gweithwyr ieuenctid gyfrannu at sawl adran o Fagloriaeth Cymru ac, yn benodol, bydd ganddynt gysylltiadau a all gynorthwyo gyda chyfleoedd gwirfoddoli naill ai o fewn y lleoliad ieuenctid lle maen nhw'n gweithio neu drwy gysylltiadau sydd ganddynt o fewn eu cymunedau.

### **d) Achrediadau eraill**

Mae cefnogi ac annog pobl ifanc i gydnabod bod dysgu'n digwydd ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gweithgareddau bob dydd yn ffurfio rhan allweddol o fenter Llwybrau Dysgu Unigol. Gall weithgareddau anffurfiol a heb fod yn ffurfiol

gyfrannu at y cymwysterau a gyflawnwyd gan bobl ifanc. Mae gwaith ieuenctid yn darparu lleoliadau a phrosiectau ble gall y rôl strategol yma sy'n rhan o broses Llwybrau Dysgu ddigwydd.

Mae llawer o gyfleoedd i gydnabod a dathlu cyflawniad pobl ifanc trwy achrediad. Gellir cael y wybodaeth fanwl am hyn yn y Llawlyfr ar Fethodoleg Achredu ac maen nhw'n cynnwys:

- Cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid
- Gwobrau Ieuenctid ASDAN
- Gwobrau a Chymwysterau Agored Cymru (Rhwydwaith Coleg Agored)
- Gwobrau a chymwysterau AQA

Mae gan sefydliadau sector gwirfoddol, rhai mewn lifrai neu heb lifrai, lawer i'w gyfrannu yn y mathau hyn o achrediad oherwydd mae eu gwobrau pwysig fel Gwobrau'r Frenhines neu fathodynau yn cael llawer o barchu gan gyflogwyr.

## 5. Rôl Gwaith Ieuencid

Mae Prosiectau Ieuencid a Gwasanaethau Ieuencid yn gynyddol yn cefnogi pobl ifanc yn eu Llwybrau Dysgu 14-19 fel dull o ddatblygu prosesau megis cymryd rhan yn y gymuned, cyfleoedd gwirfoddoli a dysgu anffurfiol.

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid [\[2\]](#) yn cynnwys nifer o safonau gyda chyswllt clir â chefnogi pobl ifanc yn eu dysgu, ac yn eu plith mae:

1.1 Galluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu dysgu i wella eu datblygiad yn y dyfodol;

1.2 Cynorthwyo pobl ifanc i fynegi ac i wireddu eu hamcanion.

1.3 Annog pobl ifanc i ehangu eu gorwelion i ddod yn ddinasyddion gweithgar;

1.4.1 Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc;

3.1 Hwyluso pobl ifanc i archwilio eu gwerthoedd a'u credoau

4.2 Galluogi pobl ifanc i gael gfael ar wybodaeth ac i wneud penderfyniadau;

Prif amcanion rôl y Gweithiwr Ieuencid i gynorthwyo pobl ifanc i gyflawni hyn yw:

- Sefydlu perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc.
- Datblygu dealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc.
- Hyrwyddo llwybrau dysgu 14 - 19 unigol a darparu gwybodaeth i gefnogi ac annog pobl ifanc i gynllunio a chymryd rhan yn eu llwybr eu hunain.
- Cynorthwyo pobl ifanc i nodi a dileu neu ymdopi â rhwystrau i ddysgu.

- Darparu cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a dysgu anffurfiol a heb fod yn dysgu er mwyn i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau hanfodol.
- Helpu pobl ifanc i gydnabod bod y gweithgareddau y maen nhw'n cymryd rhan ynddynt, mewn darpariaethau ieuenctid ac yn eu hamser eu hunain, yn rhan annatod o'u llwybr dysgu unigol.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, teuluoedd a sefydliadau er mwyn gallu eirioli o blaid, a chynnig cyfeiriad at, y cyngor a'r canllawiau gorau i bobl ifanc a fydd yn eu cefnogi i gael mynediad at eu llwybr dysgu unigol.
- Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth Amddiffyn Plant a gweithredu o fewn canllawiau penodedig.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle cyfartal

Yn bwysig, mae ethos menter llwybrau dysgu 14 - 19 wedi ei seilio ar ymagwedd o bartneriaeth a gynlluniwyd i gynnig rhwydwaith o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad i ddysgwyr ac mae gwaith ieuenctid yn rhan o hyn. Mewn cyd-destunau gwahanol ac ar adegau gwahanol, gall dysgwyr ifanc gael cymorth gan Athrawon, Hyfforddwyr Dysgu, cynghorwyr gyrfaoedd, Cynorthwyr Cymorth Dysgu a Mentoriaid Dysgu, Cynghorwyr ac Eiriolwyr. Tra wedi'u lleoli fel arfer mewn ysgol, gall gweithwyr ieuenctid hefyd hyfforddi i ymgymryd â rôl Anogwr Dysgu.

## Cynllunio rhaglen

Rôl y Gweithiwr Ieuenctid fydd hi i ddatblygu rhaglen o waith sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol sydd wedi eu hadnabod ar gyfer unigolion neu grwpiau o bobl ifanc. Gall yr anghenion hyn fod wedi eu hadnabod gan asiantaethau dysgu ffurfiol megis ysgolion neu golegau sydd wedyn yn cyfeirio at weithwyr ieuenctid neu efallai y bydd sefydliadau gwaith ieuenctid yn cydnabod yr angen trwy ei gyswllt â'r bobl ifanc y mae'n gweithio'r rheolaidd â nhw.

Bydd unrhyw raglen o waith sy'n deillio o hyn yn cael ei sefydlu yn y ffordd arferol gan ddefnyddio model dolen **NAOMIE** sydd yn un o nifer y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd a gynlluniwyd. **NAOMIE** yw'r acronym ar gyfer

- Anghenion
- Nod

- Amcanion
- Dull
- Gweithredu
- Gwerthuso

Mae'n cael ei ddisgrifio yn fanylach yn y Llawlyfr Hyfforddi.



## **ROLAU CYMORTH ALLWEDDOL I EHANGU LLWYBR DYSGU 14-19 I BOBL IFANC**

### **LEARNING SUPPORT ASSISTANT**

Learning Support Assistants work under the supervision of a teacher. They help and give extra support in the classroom and work with young people who may have special needs either in small groups or on a one-to-one basis.

### **TEACHER**

Teachers are often the first point of contact for young people in schools and therefore valuable in informing young people's choices about learning and career pathways.



## ADVOCATE

Information, advice and guidance work can lead to the provision of short term, issue based advocacy. Advocacy is the process of speaking up on behalf of another individual. A Youth Worker who acts as an advocate is likely to provide support on a particular issue such as accessing housing advice or a sexual health service. In order to advocate appropriately for a young person it is essential not to be directly involved in the issue and act specifically at the request of the young person. The advocacy role would usually only last until the issue has been dealt with. If any issue falls outside of the expertise and experience of the Youth Worker, the young person should be referred if possible to a specialist advocacy service. During the process of providing advocacy, consideration should be made to supporting a young person to eventually self-advocate if possible, thus increasing self-confidence and enabling her/him to regain control of their circumstances.

## **YOUTHWORKER**

Youth workers play an important role in the 14-19 Learning Pathways of young people. They promote personal, educational and social development and work with young people who have difficulty with learning. Their role aims to engage young people, redress inequalities, value opinions, and empower individuals to take action on issues affecting their lives, including health, education, unemployment and the environment, by developing positive skills and attitudes. Youth Workers can provide a vital link between young people and careers advisors, ensuring that the most up-to-date careers information reaches those most in need. Youth Workers signpost young people to appropriate sources of specialist Information, Advice and Guidance, and work in collaboration with key support networks.

### **LEARNING COACH**

The Learning Coach inspires young people with the confidence and curiosity to develop their interests and achievements, things that can often go unnoticed in standard measures of attainment. Informal and non-formal learning are therefore key concerns which accompany formal education and qualifications. Learning Coaches work alongside teachers and careers advisors to help them plan young people's learning pathways.

### **LEARNING MENTOR**

Learning Mentors work in educational settings with young people of all abilities who need help to overcome difficulties that are getting in the way of their learning, such as family problems, bereavement, bullying, low self-confidence and poor study skills. Learning mentors develop one to one supportive relationships and also work in group settings.

### **COUNSELLOR**

A counsellor is an expert listener who will help young people unravel serious issues such as: anxiety, uncertainty, inability to sleep, sleep disturbance, aggression, temper outbursts, poor concentration, not feeling good about themselves, relationship difficulties with families or friends, feeling withdrawn or unresponsive as well as eating problems or addictions

**CAREER ADVISOR**

A careers adviser/personal adviser provides information, advice and guidance to help young people make realistic choices about education, training and work. They help young people develop career pathway plans and introduce them to the world of work.

## 6. Dogfennau Allweddol i Gefnogi Llwybrau Dysgu 14-19 a Gwaith Ieuentid

Mae pedair dogfen allweddol yn cefnogi strategaeth Llwybrau Dysgu 14-19 a rôl Gwaith Ieuentid yn ei gyflwyno. Mae'r strategaeth drosfwaol 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19' (2003) a'i Ganllawiau dilynol yn rheoli'r broses gyfan. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu profiad addysg, hyfforddiant a gwaith o ansawdd uchel wedi'u teilwra i anghenion pobl ifanc sef hawl cyntaf pobl ifanc 11-25 oed yn 'Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru' (2000). Mae pob un yn rhoi hygredd i'r rôl gwaith ieuentid fel elfen hanfodol yn eu cyflawniad llwyddiannus. Mae 'Pobl ifanc, gwaith ieuentid, Gwasanaeth Ieuentid: Strategaeth Genedlaethol Gwasanaeth Ieuentid ar gyfer Cymru' (2006), y strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Ieuentid a arweinir drwy awdurdodau lleol a'r rhai a arweinir drwy sefydliadau gwirfoddol, yn pwysleisio'r rôl hon. Yn 2012, disodlodd Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuentid ar gyfer Cymru (2007) ac mae'n egluro beth mae gwaith ieuentid yn ei wneud a sut dylid ei wneud.

Ceir mwy o fanylion am y pedair dogfen hyn yn y Llwylyfr ar Ddogfennau a Pholisïau Gwaith Ieuentid gyda fersiwn llawer mwy cryno isod.

### Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu 6 elfen allweddol Llwybrau Dysgu 14-19 o dan dau bennawd.

Mae'r Llwybr Dysgu yn rhoi'r hawl i berson ifanc gael

5. Llwybr Dysgu Unigol wedi'i theilwra i anghenion unigol y person ifanc i redeg o 14-19 oed a thu hwnt sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy ac at ddyfarniadau credyd ar lefelau dysgu priodol ac ar yr adeg gywir ar gyfer y dysgwr.
6. Dewis Ehangach a Hyblygrwydd fel y gall person ifanc ddewis o ystod o feysydd gyda chyfleoedd i amrywio cyflymder a chyfeiriad y llwybr.
7. Craidd Dysgu sy'n cynnwys sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthoedd a phrofiadau mae pob person ifanc 14-19 oed er angen beth bynnag eu llwybr dewisol.

Mae Cymorth i Ddysgwyr yn datgan hawl i

8. Anogwr Dysgu a fydd yn cefnogi'r dysgu ac yn helpu i osod llwybr a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i drafod dysgu, cynnydd a newid cyfeiriad, os oes angen, yn rheolaidd.
9. Cymorth Personol, naill ai drwy gyfeirio neu hunangyfeirio a fydd yn cael mynediad at ystod o gefnogaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r materion niferus a all fod yn rhwystr i ddysgu.
10. Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeoddd sydd yn ddiuedd ac yn hysbysu'r llwybr dysgu trwy ei lywio tuag at ganlyniadau gyrfa.

Mae'r Canllawiau sy'n cyd-fynd â Llwybrau Dysgu 14-19 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparwyr a'r hyn y gall pobl ifanc ei ddisgwyl o'r fenter. Er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau i bobl ifanc, dylai gweithwyr ieuenctid sy'n gweithio ar Lwybrau Dysgu 14-19 ddarllen y Canllawiau yn ofalus.

## Ymestyn Hawliau

Mae Ymestyn Hawliau yn fenter wedi'i seilio ar hawliau ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed sy'n seiliedig ar baragraffau 123-129 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 sy'n cyfeirio'n benodol at gyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i awdurdodau lleol i

- a) Ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid
- b) Sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid
- c) Gymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid

Ile mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael eu diffinio fel gwasanaethau sy'n annog, galluogi neu cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)

- a) I gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant
- b) I fanteisio ar gyfleoedd am waith
- c) I gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau

Roedd Ymestyn Hawliau yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i greu amgylchedd lle gallai'r gwasanaethau hynny oedd yn gweithio gyda phobl ifanc o'r oedran hwn weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'i gilydd. Arweiniodd hyn, trwy'r Cyfarwyddyd dilynol at sefydlu Partneriaethau Pobl Ifanc ledled Cymru. Roedd y partneriaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau a sefydliadau tebyg i'r rhai a sefydlwyd yn ddiweddarach i fynd i'r afael â Llwybrau Dysgu 14-19.

### **Pobl ifanc, gwaith ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid: Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru**

Crëwyd y ddogfen hon yn dilyn cyfarwyddyd gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Jane Davidson AC, i fynd i'r afael â'r hyn a welwyd fel diffyg cyfeiriad ar gyfer a'r pwysigrwydd a roddir i Wasanaethau Ieuenctid. Tynnodd sylw at y ffaith bod pobl ifanc yn treulio dim ond 9 munud o bob awr effro yn ystod y flwyddyn mewn ysgolion a bod gan y Gwasanaethau Ieuenctid lawer i'w gynnig yn y 51 munud arall pan allent ddylanwadu nid yn unig ar yr hyn a wnaethant yn cyfnod hwn o amser hamdden ond hefyd ar agweddau ar eu dysgu a'u cynlluniau ar gyfer y newid i fod yn oedolyn.

Yn benodol, mae'r ddogfen yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru

(LICC 6) Sicrhau cyfraniad y Gwasanaeth Ieuenctid i Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19

yn arbennig

'Mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Craidd Dysgu, y llinyn heb fod yn ffurfiol o lwybr dysgu unigol, gyda gweithwyr ieuenctid yn ymgymryd â rôl yr Anogwr Dysgu a chyfraniad y Gwasanaeth Ieuenctid i'r fframwaith cymorth personol fel rhan o'r Cyfarwyddyd ar Lwybrau Dysgu III'.

(LICC 7) Datblygu ymhellach a gweithredu mesurau lleol a chenedlaethol cyson i ddangos effaith gwaith ieuenctid ar ddysgu pobl ifanc yng nghyd-destun Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19 ac adeiladu ar Dangos Llwyddiant.

Roedd yn nodi y dylai awdurdodau lleol



(ALI 2.3) weithio gyda phartneriaid, strwythurau cynllunio lleol, Rhwydweithiau 14-19 ac awdurdodau eraill i sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer yr holl bobl ifanc.

Mae'r ddogfen hefyd yn datgan y dylai'r Gwasanaeth Ieuencid 'wneud ei gyfraniad iawn a phriodol i ... Llwybrau Dysgu 14-19.

Yn bwysig, mae'r ddogfen yn nodi:

Ar gyfer y rhai 14-19 oed, mae'r canlyniadau o'r profiadau a gafwyd trwy eu hymwneud â'r Gwasanaeth Ieuencid yn cyfrannu at yr amrywiaeth gyfoethog o brofiadau sy'n cefnogi'r Craidd Dysgu a ddisgrifir yn Llwybrau Dysgu 14-19 a'r elfen heb fod yn ffurfiol o'u llwybr dysgu unigol.

### **Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion**

Yn 2012 disodlodd y ddogfen hon Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuencid ar gyfer Cymru (2002) ond a ailysgrifennwyd yn 2007. Mae'n dal yn seiliedig ar bileri ond gyda un ychwanegol o fod yn gynhwysol felly mae yna 5 bellach. Dyma'r pileri ar gyfer cyfleoedd dysgu:

**ADDYSGIADOL** - Galluogi pobl ifanc i ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer eu datblygiad eu hunain a boddhad personol ac fel modd o gyfrannu at gymdeithas fel aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol.

**MYNEGIANNOL** - Annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth a'u syniadau, barn, teimladau a'u dyheadau trwy ystod eang o gyfleoedd creadigol ac yn aml yn heriol.

**CYFRANOGOL** - Annog a chefnogi pobl ifanc i ddod yn bartneriaid yn, a rhannu cyfrifoldeb am, y cyfleoedd, prosesau dysgu a strwythurau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio bywydau eu hunain, bywydau pobl eraill ac amgylcheddau.

**CYNHWYSOL** - Galluogi pobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau cadarnhaol ac ymddygiad mewn perthynas â hil, hunaniaeth ac amrywiaeth cymdeithasol a diwylliannol;

treftadaeth, ieithoedd a gwerth eu hieithoedd eu hunain ac eraill; dinasyddiaeth, a pharch tuag at ddewisiadau pobl eraill.

**GRYMUSO** - Annog a galluogi pobl ifanc i ddeall ac defnyddio'u hawliau, gan gynnwys cydnabod bod gan yr holl bobl ifanc hawliau a bod hyn yn awgrymu parchu hawliau pobl eraill; cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ac aelodau o'u cymunedau; annog pobl ifanc i ymgysylltu â'r materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau a bywydau pobl eraill ac i ddatblygu rhinweddau arweinyddiaeth.

Mae'r prosesau ar gyfer arfer gwaith ieuenctid da yn cydberthyn yn agos iawn gyda'r rhai sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen hon ar Lwybrau Dysgu 14-19.

## 7. Gweithgareddau Ymarferol i Gefnogi Llwybrau Dysgu Unigol

Mae llawer o'r gwaith o gynllunio llwybr dysgu unigol gan berson ifanc yn digwydd gydag anogwr dysgu. Fodd bynnag, gall gweithwyr ieuencid chwarae rôl arwyddocaol yn y broses hon yn arbennig gyda phobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol (am ba bynnag reswm) neu nad ydynt yn ymwneud â'r cymorth a gynigir drwy eu hysgol.

Mae'r gweithgareddau isod yn syniadau y gellir eu haddasu a'u hamrywio i weddu anghenion yr unigolyn a lleoliad y gefnogaeth. Gellir gweld disgrifiadau byr ohonynt yma, ac yn dilyn dros y 5 tudalen nesaf ceir cynllun ar gyfer pob sesiwn. Lle bo hynny'n briodol, gellir gopïo a gludo'r gweithgaredd, a'i hargraffu i'w defnyddio gan bobl ifanc. Mae'r gweithgareddau yn cael eu dilyn gan ddau fap sy'n datblygiad o'r un ar dudalen 7 a gellir eu defnyddio gyda'r gweithgareddau i helpu pobl ifanc i ddylunio eu mapiau eu hunain.

### Gweithgaredd 1 **Y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol**

Bwriad y weithgaredd hwn yw cael pobl ifanc i ddechrau meddwl am eu dyfodol a'r hyn y maen nhw eisiau ei gyflawni. Mae hefyd yn cefnogi pobl ifanc i gydnabod y posibilïadau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

### Gweithgaredd 2 **Cyfleoedd a Rhwystrau**

Bwriad y weithgaredd hwn yw hyrwyddo trafodaeth ac ymchwilio i nodi problemau neu rwystrau a allai atal pobl ifanc rhag cyflawni eu nodau, amcanion a dyheadau ar gyfer y dyfodol ac ysgogi atebion i'r problemau hyn.

### Gweithgaredd 3 **Ond beth am fy ffrindiau?**

Y pwyslais ar gyfer y weithgaredd hwn yw annog pobl ifanc i ddatblygu eu llwybr dysgu *unigol* ei hun. Mae'n dangos bod ffrindiau yn gallu dilyn llwybrau gwahanol ac amrywiol ond dal gefnogi'i gilydd a bod yn ffrindiau trwy gydol eu addysg 14 - 19.

## Gweithgaredd 4 Beth yw fy Llwybr Dysgu 14-19 Unigol

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi disgrifiad person ifanc o fenter Llwybrau Dysgu 14-19 Unigol ac defnyddio'r map arfaethedig cyntaf ar dudalen 7 fel ffordd o gynllunio, dilyn ac adolygu eu llwybr dysgu unigol.

## Gweithgaredd 1 Fy Ngorffennol / Fy Mhresennol / Fy Nyfodol



### Adnoddau

Darn mawr o gerdyn gwyn (yn ddelfrydol hanner taflen A2 ar ei hyd)  
Cylchgronau / catalogau / lluniau  
Glud a siswrn  
Pinnau ysgrifennu a phensiliau lliw

My Past	My present	My Future

Beth ddylwn i ei wneud?

1. Plygwch y cardbord yn dair fel y dangosir

2. Yn y rhan ar y chwith, crëwch gollage lliwgar o'ch atgofion hapus a syniadau o'ch gorffennol. Gallai'r rhain gynnwys;  
eich hoff degan

gêm roeddech chi arfer chwarae,  
anifail anwes;  
eich tŷ,  
eich teulu;  
eich atgofion o'r ysgol;  
gwyliau;  
eich ffrindiau

3. Yn yr adran ganol, crëwch gollage lliwgar o'r hyn yr ydych yn ei wneud nawr a sut rydych yn teimlo. Gallai hyn gynnwys:

Eich ffrindiau  
Eich teulu  
Ysgol:  
Eich hobiau  
Pethau yr ydych yn eu perchen fel ffôn / gemau ac ati  
Eich tŷ a'ch amgylchedd  
Lleoedd yr ydych yn mynd / yn treulio amser  
Hoff gerddoriaeth / rhaglen deledu

4. Yn yr adran ar y dde, crëwch gollage lliwgar o'r hyn yr ydych ei eisiau yn y dyfodol. Eich hapusrwydd. Gallai hyn gynnwys:

Swydd neu yrfa / cael eich busnes eich hun  
Priodas / partner  
Plant  
Teithio

Car cyflym  
Tŷ / portffolio o dai  
Gweithio mewn gwlad arall  
Bod yn gyfoethog  
Eich 'dyhead' megis i fod yn Brif Weinidog

## Gweithgaredd 2 Cyfleoedd a Rhwystrau

Edrychwch eto ar yr hyn yr ydych wedi creu ar gyfer eich dyfodol, y pethau yr ydych am eu cyflawni a'r pethau yr ydych am eu cael yn eich bywyd.



yn y dyfodol?

Pa Gyfleoedd sydd gennych i wireddu'r hyn yr wyf am ei gael

A large, empty rounded rectangular box with a black border, intended for writing a response to the questions below.

What might stop me from achieving what I want in the future?  
What barriers do I face?





How can I overcome these barriers? What can I do to help me achieve what I want in the future?

**Deddf**

**Gweithgaredd 3 Ond beth am fy ffrindiau?**



### **Adnoddau**

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen i chi ddod o hyd i ffrind rydych yn ymddiried ynndo i rannu eich dyfodol a helpu cyflawni'r hyn rydych ei eisiau ar gyfer y dyfodol.

Byddwch hefyd angen;

Dau bentwr o post-it notes o wahanol liwiau (un i chi ac un ar gyfer ffrind)

Pen / pensil

Papur siart troi

Beth sydd angen i mi ei wneud?

1. Edrychwch eto ar y collage a grëwyd gennych yn ngweithgaredd 1. Dewiswch post-it notes mewn un lliw ac

ysgrifennwch i lawr pob un o'r pethau yr ydych am ei gael yn eich dyfodol yr oeddech wedi'u cynnwys yn eich collage. Mae'n bwysig ysgrifennu un peth yn unig ar post-it.

2. Rhannwch ddarn o bapur siart troi yn ddau.  
Ar un ochr ysgrifennwch 'tebyg' ac ar yr ochr arall  
ysgrifennwch 'gwahanol' fel y dangosir.

Rhowch eich post-it notes sy'n debyg i rai eich  
ffrind yn y golofn ar y chwith a'r rhai sy'n  
wahanol yn y golofn ar y dde.

3. Gyda'ch ffrind trafodwch y pethau rydych chi eu heisiau  
sy'n debyg a'r pethau yr ydych eu heisiau sy'n  
wahanol.

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i weld bod hyd yn oed eich ffrindiau gorau  
eisiau gwahanol bethau yn eu dyfodol.

Ond nid yw hyn yn golygu na allwch chi fod yn ffrindiau mwyach.

Trafodwch ffyrdd y gallwch chi helpu a chefnogi eich ffrind i gyflawni'r hyn y maent eu heisiau yn y dyfodol.

Ysgrifennwch i lawr pum peth y gallwch eu gwneud i helpu a chefnogi eich ffrind i gyflawni'r hyn y mae ef/hi ei eisiau yn y dyfodol ond na fydd yn eich rhwystro rhag cyflawni'r hyn rydych chi ei eisiau.

Five ways I can help and support my friend.

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.

## Atodiad 5

### Gweithgaredd 4 Beth yw fy Llwybr Dysgu 14-19 Unigol?

Mae'r Llwybrau Dysgu 14-19 Unigol yn cael eu cynllunio i'ch helpu i gyflawni'r hyn rydych chi ei eisiau yn eich dyfodol. Mae'n gadael i chi ddewis y llwybr yr ydych am gymryd fel y gallwch gael y dyfodol yr ydych ei eisiau.

Yn 14 oed; byddwch yn;

- Astudio eich pynciau craidd yn yr ysgol ac yn cael eich cymwysterau ar lefel 2
- Byddwch yn dysgu am waith. Byddwch yn gallu gwneud profiad gwaith a datblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn gweithiwr da megis bod â'r gallu i weithio fel rhan o dîm a datrys problemau. Gelwir y rhain yn sgiliau hanfodol.
- Gallwch ddewis yr opsiynau yr ydych yn ei fwynhau, rydych yn eu gwneud yn dda ac y bydd yn eich helpu i gael yr hyn rydych ei eisiau yn y dyfodol a gallwch hefyd gynnwys pethau eraill yr ydych yn ei wneud fel Gwobr Dug Caeredin, gwersi cerddoriaeth neu chwaraeon rydych chi'n eu gwneud ac ati. Gelwir hyn yn 'dysgu heb fod yn ffurfiol'
- Gallwch gynnwys y pethau eraill yr ydych yn hoffi gwneud yn eich bywyd fel mynychu clwb ieuenctid, mynd i Sgowtiaid, darllen neu goginio gartref. Gelwir hyn yn 'dysgu anffurfiol'

Yn 16 oed; byddwch yn;

- Penderfynwch a ydych am fynd i'r coleg, ceisio hyfforddiant yn seiliedig ar waith neu gael swydd. Byddai'n wych pe gallai eich cyflogwr gynnig hyfforddiant i chi hefyd.
- Byddwch yn dysgu mwy am waith ac yn datblygu ymhellach y sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn gweithiwr da megis bod â'r gallu i weithio fel rhan o dîm a datrys problemau. Gelwir y rhain yn sgiliau hanfodol.
- Mae hefyd yn bwysig cynnwys y pethau yr ydych yn hoffi gwneud fel Gwobr Dug Caeredin, gwersi cerddoriaeth neu chwaraeon rydych chi'n eu gwneud ac ati ac i gynnwys y pethau eraill yr ydych yn hoffi gwneud yn eich bywyd fel mynychu clwb ieuenctid, mynd i Sgowtiaid, darllen neu goginio gartref. Gelwir hyn yn 'dysgu heb fod yn ffurfiol'
- Peidiwch ag anghofio cynnwys unrhyw waith gwirfoddol yr ydych yn ei wneud neu yr hoffech ei wneud ac unrhyw waith rhan amser ydych yn ei wneud hefyd. Gelwir hyn yn 'dysgu anffurfiol'

Yn 19 oed;

- Byddwch yn penderfynu a ydych chi eisiau mynd ymlaen i addysg uwch neu gael swydd sy'n defnyddio'r holl sgiliau a hyfforddiant sydd gennych chi.

### **Pan fyddwch yn 14**

Gan ddefnyddio eich cynllunydd Llwybrau Dysgu 14-19 Unigol (Map 2), dechreuwch ar y diwedd gan gofnodi beth rydych yn meddwl efallai y byddwch am ei wneud yn 19 oed. Gallai hyn fod yn addysg uwch neu'n gyflogaeth fedrus. Mae hyn yn unig er mwyn i chi ddechrau, nid yw'n golygu rhaid i chi wneud hynny dim ond am eich bod wedi ei ysgrifennu i lawr.

Yna ewch yn ôl i 14 oed a chofnodi;

- Fy mhynciau craidd;
- Y profiad gwaith rwyf eisiau gwneud
- Y cwrs neu gyrsiau coleg rwyf eisiau gwneud.
- Yr opsiynau rwyf wedi dewis
- Sgiliau Hanfodol
- Pethau eraill rwy'n eu dysgu yn enwedig pan nad wyf yn yr ysgol.
- Pethau rwy'n hoffi gwneud yn fy amser fy hun
- Gwirfoddoli

Mae digon o bobl allan yna sy'n gallu eich helpu i benderfynu beth rydych eisiau gwneud a'ch helpu i wneud dewisiadau a dysgu pethau a fydd yn eich helpu i gyflawni'r hyn rydych ei eisiau yn y dyfodol.

Gallwch barhau i ychwanegu at eich llwybr wrth i chi roi cynnig ar bethau newydd a gwneud penderfyniadau newydd. Trafodwch eich taith wrth i chi fynd ymlaen a chofnodwch eich trafodaeth / unrhyw gyngor ac unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.

### **Pan fyddwch yn 16**


Gan ddefnyddio eich cynlluniwr (Map 3), edrychwch eto ar yr hyn rydych wedi dewis ei gwneud yn 19 oed. A yw'r rhain yn bethau rydych yn dal yn awyddus i'w gwneud? Os na, trafodwch unrhyw newidiadau gyda rhywun a all eich helpu chi a chofnodwch eich syniadau.

Yna ewch yn ôl i 16 oed a chofnodwch;

- Pa gwrs coleg rydych chi wedi dewis, neu pa ddysgu yn seiliedig ar waith rydych chi wedi dewis, neu pa swydd sydd gennych.
- Pa ddysgu yn seiliedig ar waith y byddech yn hoffi gwneud
- Sgiliau Hanfodol
- Pethau eraill rwy'n dysgu yn enwedig pan nad wyf yn yr ysgol.
- Pethau rwy'n hoffi gwneud yn fy amser fy hun, gan gynnwys gwirfoddoli a gwaith rhan-amser.
- Gwirfoddoli


Gallwch barhau i ychwanegu at eich llwybr wrth i chi roi cynnig ar bethau newydd a gwneud penderfyniadau newydd.

Trafodwch eich taith wrth i chi fynd ymlaen a chofnodwch eich trafodaeth / unrhyw gyngor ac unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.









## **8.Enghreiffiau o ymyriadau Gwaith Ieuenctid yn Llwybrau Dysgu 14-19**

### **Prosiect 1 Tanyard Youth Project Ltd, Penfro**

Mae'r Tanyard yn sefydliad galw heibio ieuenctid cyffredinol gwirfoddol felly mae ei gyfraniad at lwybrau dysgu unigolyn yn disgyn yn bennaf i mewn i'r categori nad ydynt yn ffurfiol. Nid ydynt yn cymryd rhan yn yr hyn a welir fel dysgu ffurfiol. Fodd bynnag, yn yr enghraifft hon mae'r Tanyard yn gallu chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad person ifanc a dylanwadu ar y Llwybr Dysgu trwy'r dysgu heb fod yn ffurfiol mae'n darparu.

### **Achos Ruth**

#### **Cefndir**

Nid oedd Ruth yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gobeithiwyd ar ei ffordd i sefyll ei arholiadau TGAU. Mae hi a'i ffrindiau yn dangos awydd i wneud mwy o fewn prosiect Tanyard. Beth ddilynodd oedd rhaglen barhaus o ddigwyddiadau awyr agored cost isel a sawl taith gwerysyla. Mae'r gweithgareddau hyn wedi caniatáu i Ruth gael profiadau newydd, gwella ei hyder ac adeiladu perthynas gref ag aelodau o staff. Wrth i Ruth symun i mewn i flwyddyn 11 roedd y perthnasau hyn wedi ei galluogi i siarad am ei phryderon am yr arholiadau oedd i ddod.

#### **Dull**

Wrth gymryd rhan yn y gweithgaredd, roedd Ruth hefyd yn gallu manteisio ar wybodaeth bersonol staff o lenyddiaeth Saesneg a'r llyfr, 'To Kill a Mockingbird', yn arbennig. Ar yr un pryd dechreuodd ei chyfranogiad cynyddol yn y prosiect gymryd siâp mwy pendant. Roedd hi'n helpu i baratoi a chyflwyno adroddiad i'r bobl ifanc ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, cymryd rhan mewn sawl digwyddiad ymgynghori a hi oedd o drefnwyr taith i Lundain. Hefyd fe ddechreuodd hi ar ei Gwobr Efydd ar Gynllun Dug Caeredin. Fel rhan o hyn fe ddechreuodd wneud rhywfaint o wirfoddoli gyda'i hadran gwasanaeth, dawnsio stryd ar gyfer yr elfen gorfforol a choginio ar gyfer yr elfen sgiliau.

#### **Canlyniad**

Mae Ruth wedi dod yn fodel rôl ar gyfer aelodau iau ac yn enghraifft wych o'r manteision sydd gan y prosiect i'w gynig i bobl ifanc. Mae hi wedi cael budd enfawr o gymryd rhan yng ngwaith y Tanyard ac mae hi yn ei thro wedi dod â chymaint o frwdfrydedd a bywiogrwydd i'r prosiect. Mae staff wedi gweld ei thwf ac mae hi wedi ennill gwobrau am yr hyn y mae hi wedi'i gyflawni. Mae'r gwobrau hyn yn werth chweil yn eu hunain ac mae'r hyder mae hi wedi ennill wedi rhoi mwy o hyder iddi a lleihau'u straen ei ymwneud â'i arholiadau TGAU.

## **Prosiect 2 Gwasanaeth Ieuentid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Rhaglen Cefnogi Cwricwlwm**

Prosiect gwaith ieuentid yn seiliedig mewn ysgolion sy'n brosiect gan Wasanaeth Ieuentid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nodau'r prosiect yw:

- cynorthwyo ysgolion i leihau nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol
- cynorthwyo ysgolion i leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau
- cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol fydd yn eu galluogi i fyw bywydau boddhaus nawr ac yn oedolion;
- helpu i wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc trwy eu darparu â rhaglenni achrededig o ddysgu a chyfleoedd i gael mynediad at ystod o weithgareddau sy'n ymateb yn uniongyrchol i'w hanghenion
- helpu pobl ifanc i aros mewn addysg brif ffrwd ac i gymryd rhan weithredol yn yr ysgol, y teulu a bywyd cymunedol.

Maent yn gwneud hyn trwy gynig ystod o ymyriadau sy'n annog pobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, dewisiadau a pherthnasau.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Cwricwlwm yn cynnig cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn dewis amgen i'r cwricwlwm prif ffrwd am gyfnod o ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae ei ideoleg wedi'i ymwreiddio yn y syniad y bydd cyfnod dwys i ffrwdd o ddsbarthiadau yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau i ddod yn fwy llwyddiannus yn y cwricwlwm prif ffrwd ac yn eu helpu i wneud y trosglwyddiad i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Cwricwlwm cwmpasu Mynediad Ieuentid a FFOCWS (ar gyrhaeddiad personol). Mae FFOCWS yn rhaglen dwy flynedd dwys achrededig sy'n darparu profiad cymdeithasol ac addysgol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o weithgareddau prif ffrwd o ganlyniad i ddiffyg hunanhyder a hunan-barch.

## **Achos Julie**

## **Cefndir**

Roedd Julie yn aelod tawel o'r grŵp ffocws ac roedd hi'n ansicr beth roedd hi eisiau ei wneud ar ôl gadael yr ysgol. Mae hi'n gwybod ei bod am barhau mewn addysg ond nid oedd yn siŵr a fyddai <sup>6ed</sup> dosbarth neu goleg yn well. Roedd Julie yn fyfyrwr galluog a oedd wedi ei darogan i ennill graddau 'C'. Fodd bynnag, roedd ei hunanhyder a hunan-barch yn isel iawn a oedd yn effeithio ar ei gallu i gyfathrebu ag eraill a'i phresenoldeb yn yr ysgol. Roedd Julie a'i theulu hefyd yn cael eu cefnogi gan ddarpariaeth gwaith ieuenctid prosiect i fynd i'r afael â materion iechyd a lles emosiynol.

## **Dull**

Roedd presenoldeb Julie yn yr ysgol yn gwella ac roedd hi'n mwynhau'r sesiynau ffocws yn yr ysgol. Roedd hi'n awyddus i fod yn rhan o'r prosiect AU i AB (*addysg uwchradd i addysg bellach*) a oedd yn cael ei redeg gan dîm gwaith ieuenctid yn seiliedig mewn ysgol oherwydd roedd hi'n teimlo y byddai'n ei helpu i wneud y dewis cywir.

## **Canlyniad**

O ganlyniad, mae ganddi fwy o hyder ynnddi hi ei hun ac mae wedi sicrhau lle mewn coleg. Mae ei theulu wedi mynegi gwerthfawrogiad am y gefnogaeth mae hi wedi derbyn. Erbyn hyn mae gan Julie ymagwedd gadarnhaol ac mae hi'n teimlo'n hyderus i fynd at y Gweithiwr Ieuenctid a leolir yn y coleg ac y mae hi wedi ei gyfarfod trwy gydol y prosiect.

## **Achos David**

### **Cefndir**

Roedd David yn ei cael hi'n anodd cymryd rhan yn yr ysgol oherwydd ei amgylchiadau personol a theuluol. Daeth ei bresenoldeb yn yr ysgol yn fwyfwy afreolaidd ac, yn dilyn marwolaeth perthynas agos, fe stopiodd fynychu'r ysgol o gwbl. Mewn partneriaeth â'r ysgol, rhoddwyd pecyn o gefnogaeth ar waith i'w helpu i ail-gymryd rhan mewn addysg, gwella ei bresenoldeb a chyflawni'i gwaith cwrs

## **Dull**

Cafodd David gefnogaeth gan weithiwr ieuenctid prosiect. Roedd y gweithiwr ieuenctid yn ei gefnogi i ail-gymryd rhan mewn amserlen ran amser a hefyd darparwyd sesiynau un i un a threfnwyd cefnogaeth y tu allan i gwricwlwm yr ysgol. Yn dilyn cyfnod o salwch, bu David hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau gydag anogwr dysgu, gweithiwr ieuenctid hyfforddedig ac athro trwy tiwtora yn y cartref.

Trwy gefnogaeth, dechreuodd David ailintegreiddio i mewn i fywyd yr ysgol a dechreuodd fynychu'r sesiynau ffocws a ddarparwyd gan y gweithiwr ieuenctid yn seiliedig yn yr ysgol. Cymerodd ran yn y gwaith o gynllunio'r ailintegreiddio ac mae wedi bod yn gweithio ar 'Hunan Ddatblygiad', 'Gwella ei Ddysgu ei hun "a' Datrys Problemau 'gan ddefnyddio ei brofiadau, teimladau a dyheadau i gyflawni'r rhain. Enillodd David Wobr Effeithiolrwydd Personol ASDAN yn ei sesiynau FFOCWS a gyfrannodd pwyntiau gwerthfawr at ei throthwy lefel 1.

## **Canlyniad**

O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, cwblhaodd David gwrs Saesneg a Thechnegol a sefyll arholiad lefel mynediad Saesneg. Aeth y gweithiwr ieuenctid gydag ef i'w cyfweliadau coleg ac fe arweiniodd y rhain at gynnig o le ar gwrs BTEC. Cafodd David gynnig le hefyd ar y Cwrs Adeiladu Sgiliau er mwyn paratoi ar gyfer y Coleg.

**Gwahoddir Weithwyr Ieuenctid i anfon eu hastudiaethau achos atom er mwyn eu hychwanegu at y dystiolaeth o effaith Gwaith Ieuenctid ar Lwybrau Dysgu 14-19.**

## 9. CYSYLLTIADAU

Mae pob awdurdod yng Nghymru yn gweithredu ei Rhwydwaith 14 - 19 yn wahanol gan sicrhau bod anghenion lleol pobl ifanc yn cael eu hystyried. Felly, mae'n bwysig i weithwyr ieuencid ddeall sut mae ei awdurdod yn strwythuro'i Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn gallu adnabod y rhan mae gwaith ieuencid yn chwarae yn ei strwythur.

O 2012, mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn cael eu trefnu ar sail ranbarthol felly er mwyn darganfod sut y mae'n cael ei redeg mewn awdurdod lleol penodol, bydd angen i chi gysylltu ag un o'r canlynol;

- Cynrychiolydd Rhwydwaith Rhanbarthol 14-19 (gweler y dudalen nesaf)
- Cadeirydd neu brif swyddog y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP)
- Y Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC)

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth:

- Y Tîm Llwybrau Dysgu yn Llywodraeth Cynulliad Cymru:  
[14-19@wales.gsi.gov.uk](mailto:14-19@wales.gsi.gov.uk) neu'r wefan [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)
  - Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (CWVYS): [www.cwvys.org.uk](http://www.cwvys.org.uk)

### Manylion Cynrychiolwyr Rhwydweithiau 14-19

RHANBARTH:	Awdurdod Lleol	Cydlynnydd Rhwydwaith	Cyfeiriad	Cyfeiriad e-bost:
Canol De	Pen-y-bont ar Ogwr	Kath Durbin	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, Sunnyside, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AR	<a href="mailto:kathryn.durbin@bridgend.gov.uk">kathryn.durbin@bridgend.gov.uk</a>

		Susan Roberts <b>(Cyswllt Rhanbarthol/Cyfarfod ydd Grŵp)</b>	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, Sunnyside, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AR	<a href="mailto:susan.roberts2@bridgend.gov.u">susan.roberts2@bridgend.gov.u</a>
De Orllewin a Chanolbarth Cymru	Caerfyrddi n	Matt Morden	Rheolwr Rhwydweithiau Dysgu Gydol Oes, Bloc 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Caerfyrddin, SA31 1DS	<a href="mailto:msmorden@carmarthenshire.gov">msmorden@carmarthenshire.gov</a>
Y De-ddwyrain	Torfaen	Steve Davies	Dirprwy Ymarferydd Swyddog Datblygu 14- 19, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Llawr 4, Neuadd y Sir, Cwmbrân, NP44 2XH	<a href="mailto:steve.davies@torfaen.gov.uk">steve.davies@torfaen.gov.uk</a>
Gogledd Cymru	Dinbych	John Gambles	Cydlynnydd Rhwydwaith, Swyddog Addysg Uwchradd, Trem Clwyd, Canol y Dre, Rhuthun, LL15 1QA	<a href="mailto:john.gambles@denbighshire.gov">john.gambles@denbighshire.gov</a>

[1] 14-19: Canllawiau Llwybr Dysgu, Llywodraeth Cynulliad Cymru

[2] Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid - Dysgu Gydol Oes y DU